



Bwyd a Diod Cymru
Rhwydwaith Clwstwr
Food & Drink Wales
Cluster Network



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHAGLEN PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH

NODIADAU ESBONIADOL

Dogfen IP_WG_002

Gorffennaf 2018



**Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales**

CYFLWYNIAD

Mae'r nodiadau hyn yn esbonio sut y bydd y Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith yn gweithio a sut y bydd cynigion yn cael eu dewis. Dylid darllen y nodiadau hyn law yn llaw â dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hon.

AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

Mae'n rhaid i'r holl brosiectau sy'n cael eu cefnogi drwy'r Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith wneud cyfraniad tuag at y cynllun trosfwaol, y Cynllun Gweithredu Strategaeth Fwyd - Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 a'r amcanion thematig a ganlyn;

- Ymrwymiad i Frand Cymru;
- Hybu a datblygu sector bwyd a diod yng Nghymru sy'n fywiog ac yn tyfu;
- Ymrwymiad i ddatblygu arloesi mewn rhwydwaith cydweithredol;
- Ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

PWY ALL WNEUD CAIS?

Mae'r rhaglen hon yn chwilio am brosiectau cydweithredol sy'n cael eu harwain gan fusnes ac sy'n cynnwys o leiaf un partner arall a allai fod yn fusnes, yn sefydliad ymchwil neu'n sefydliad o'r sector cyhoeddus.

Bydd prosiectau a ariennir drwy'r rhaglen yn cadw'r eiddo deallusol a gynhyrchir a'r disgwyl yw y bydd canlyniadau pob prosiect yn cael eu rhannu ymysg partneriaid y prosiect. Dylai prosiectau unigol a ariennir drwy'r rhaglen fod â chytundebau cydweithio sy'n nodi'r telerau partneriaeth cyn i'r prosiectau gychwyn.

Prif ymgeiswyr (busnesau)

Mae'n rhaid i'r prif ymgeiswyr fod yn aelodau o'r Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod a bod yn fusnesau bach a chanolig yn ôl diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd. Gall busnesau ganfod a ydynt yn cyfateb â diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o fusnes bach a chanolig drwy edrych ar y wefan isod. Mae'r rhaglen yn agored i fusnesau sy'n bodoli'n barod a busnesau newydd, yn cynnwys busnesau sy'n cychwyn o'r newydd ac sydd eisiau ymuno â'r Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod. Dylai busnesau sydd eisiau ymuno â'r Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod gysylltu â FoodBIS@wales.gsi.gov.uk Rhaid i ymgeiswyr arweiniol fod yn gofrestredig yng Nghymru.

<http://ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition/>

Y partneriaid busnes ychwanegol

Gall y partneriaid busnes cydweithredol fod o unrhyw faint ac o unrhyw ddiwydiant. Gall consortia gynnwys busnesau nad ydynt yn rhai Prydeinig, er na fyddent hwy'n derbyn arian. Gellir cynnwys busnesau nad ydynt yn Brydeinig yng nghostau'r is-gontractwyr.

Sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau ymchwil

Gallai consortia gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus megis Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Sefydliadau Gofal Cymdeithasol, ac ati. Gallai consortia hefyd gynnwys sefydliadau ymchwil megis prifysgolion, sefydliadau ymchwil a thechnoleg di-elw a sefydliadau ymchwil annibynnol. Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau ymchwil rannu hyd at 50% yn fwy o gostau cyfan y prosiect (yn cynnwys gwaith fel is-gontractwyr). Mae'n rhaid i gonsortia sydd â mwy nag un sefydliad sector cyhoeddus neu sefydliad ymchwil rannu'r uchafswm yma rhyngddynt.

Rydym yn annog cydweithio arloesol ac uchelgeisiol sy'n cynnwys partneriaid niferus o amrywiol ddisgyblaethau. Mae'r rhaglen hon yn ymddiddori'n arbennig mewn prosiectau sy'n cynnwys y meysydd a ganlyn er nad yw prosiectau wedi eu cyfyngu i'r meysydd penodol yma:

- Galluoedd lefel uwch mewn Peirianeg
- Deallusrwydd Artiffisial a'r Rhyngrwyd Pethau
- Effeithlonrwydd Ynni
- Iechyd a Maeth

Gweithio gyda chwsmeriaid posibl

Gallai prosiectau hefyd ffurfio partneriaeth gyda chwsmeriaid/cwsmeriaid posibl, gan olygu bod modd i fusnesau weithio gyda defnyddiwr terfynol y cynnyrch neu'r gwasanaeth. Dylai busnesau sicrhau bod cytundebau cydweithio'n caniatáu i'r eiddo deallusol a gynhyrchir gael ei defnyddio ar gyfer marchnadoedd a chwsmeriaid eraill.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

Dydy hi ddim yn bosibl rhoi rhestr ddiffiniol o weithgareddau sydd, neu a allai fod, yn gymwys o dan y rhaglen am fod cwmpas posibl y gronfa'n eang iawn ac mae wedi'i llunio i ganiatáu ystod eang o brosiectau.

Mae'r adran ddilynol yn arweiniad i'r math o brosiectau sy'n debygol o fod yn gymwys o dan y rhaglen.

MATH O BROSIECTAU

Bydd y rhaglen hon yn cefnogi prosiectau cydweithredol i ddatblygu atebion arloesol ym maes bwyd a diod sy'n ymdrin â heriau cymdeithasol a heriau yn y sector cyhoeddus neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod. Bydd cyllid yn cael ei ddarparu i ysgogi arloesi mewn amgylchedd cydweithredol sy'n gadael i fusnesau weithio gyda phartneriaid mewn diwydiant, mewn addysg ac yn y sector cyhoeddus. Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd y prosiect a gynigir yn ymdrin â'r her neu'r broblem a ganfuwyd ac yn dangos sut y bydd cyllido prosiect yn y maes dewisedig o fudd i gymdeithas a/neu fusnesau yn y diwydiant bwyd a diod.

Cafodd y rhaglen hon ei llunio i droi prosesau, cynhyrchion neu wasanaethau arloesol yn gyfle masnachol sy'n arwain at dyfiant sylweddol a chynaliadwy'r busnes. Mae'r gystadleuaeth yn agored i syniadau a chysyniadau arloesol yn unig a dylai cynigion ddangos sut y bydd syniadau a chysyniadau'n arwain at farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol newydd drwy dyfiant y busnes. Dylai prosiectau hefyd allu dangos bod ganddynt y potensial i fod yn effeithiol ac i sicrhau enillion ar fuddsoddiad.

Astudiaethau o ddichonoldeb cydweithredol

Pwrpas: Dadansoddi'r potensial i gonsortia gydweithio i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau neu brosesau newydd. Mae'r cyllid yma wedi'i fwriadu i ddangos dichonoldeb technegol a masnachol y cysyniad a gynigir. Bydd cyllid yn galluogi i brosiectau ddadansoddi a gwerthuso potensial y cysyniadau a'r syniadau sy'n cefnogi'r broses wneud penderfyniadau. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi busnesau i adeiladu rhwydweithiau a phartneriaethau cenedlaethol neu rhyngwladol, archwilio syniadau ar gyfer cydweithio yn y dyfodol a chanfod cyfleoedd yn y farchnad. Bydd yr astudiaethau dichonoldeb cydweithredol yn caniatáu i fusnesau benderfynu gyda pha bartneriaethau y maent am weithio mewn prosiect mwy.

ESIAMPLAU O BROSIECTAU

Dylai prosiectau gynnig atebion i heriau cymdeithasol a heriau yn y sector cyhoeddus neu broblemau cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau o fewn y diwydiant bwyd a diod. Dim ond esiamplau yw'r prosiectau a ganlyn o'r mathau o brosiectau a allai gael eu cefnogi o dan y rhaglen hon.

- Efallai y bydd busnes bwyd a diod arloesol eisiau sefydlu cysylltiadau pellach rhwng sefydliadau arweiniol yn y Deyrnas Unedig a chreu partneriaethau gyda chwmnïau/dosbarthwyr i ddatrys problemau dosbarthu a chyflenwi ar draws marchnadoedd eraill, megis Ewrop neu America.
- Gallai gweithgynhyrchwyr bwyd gydweithio gyda chwmni technoleg arloesol a Phrifysgol i archwilio sut i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wella'r broses o drefnu a chanfod anghysonderau mewn cynhyrchion bwyd, i wneud ymchwil i'r farchnad ac i ddatblygu partneriaethau/cydweithrediaid pellach.
- Gallai cwmni prosesu cig/dofednod weithio gyda busnes arall a Phrifysgol i ddatblygu proses arloesol ar gyfer pacio bwyd gyda defnydd cynaliadwy sy'n garedig i'r amgylchedd a gwneud gwelliannau i'r systemau trin elifiant.
- Efallai y bydd consortiwm o fusnes bwyd a diod, Prifysgol a Bwrdd Iechyd eisiau gweithio ar brosiect i ddatblygu cynnyrch maethlon arloesol i helpu cleifion i wella ar ôl llawdriniaeth.
- Gallai arbenigwyr o fusnesau a phrifysgolion ffurfio grŵp buddiant arbenigol, a phrofi pa mor ymarferol ydyw, ar gyfer datblygu a hyrwyddo prosesau cadwyn cyflenwi arloesol yn y fasnach adwerthu bwyd a diod.

GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS

Atebion sydd angen cymeradwyaeth reoleiddiol sylweddol (dylai ymgeiswyr wirio gyda thîm y gystadleuaeth i ganfod a fyddai eu hateb yn gymwys i dderbyn cyllid grant).

MAINT Y GRANT A THROTHWY'R GRANT

- Cefnogir y grant gan Lywodraeth Cymru.
- Gallai prosiectau dderbyn hyd at 75% o'r costau cymwys tuag at brosiectau. Y cyfraniad grant uchaf i bob prosiect yw £75,000 (**yn cynnwys TAW**).
- Mae'n rhaid i'r prif sefydliad hawlio arian drwy'r gystadleuaeth hon.
- Os derbynir arian cyhoeddus arall o'r Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd i gefnogi costau prosiect, gallent gael eu cynnwys yn ychwanegol at y grant a roddir.
- Disgwylir i brosiectau bara hyd at uchafswm o 4 mis ac mae'n rhaid iddynt ddod i ben erbyn 1af Mawrth 2019. Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau terfynol yw 15fed Mawrth 2019.

ARIAN CYFATEBOL

Mae'n rhaid i brosiectau sicrhau 25% o'r costau prosiect cymwys cyfan. Diffinnir yr ariannu ychwanegol yma fel cyllid ychwanegol yng nghyd-destun y rhaglen.

Mae'n rhaid darparu ariannu cyfatebol ar ffurf cyfraniadau arian parod gan y sectorau cyhoeddus neu breifat neu'r trydydd sector.

Esiampl weithredol

Costau cyfan y prosiect	£100,000
Cyfradd ymyriad	75%
Bydd y Rhaglen yn cyfrannu	£75,000
Yr ariannu cyfatebol sydd ei angen	£25,000

Wrth gyllidebu, cadw cofnodion neu wneud hawliad ariannol am daliad, bydd angen dangos tystiolaeth o'r costau llawn, sef £100,000.

Gall cyllid cyfatebol fod yn gyfandaliad a roddir i brosiect ond gall hefyd gyfeirio at arian parod a roddir drwy dalu cyflogau staff prosiect neu brynu offer, ac ati. Felly, mae'n hanfodol cofnodi cost gyfan y prosiect. Gan ddefnyddio'r esiampl uchod, os byddai staff y prosiect yn derbyn cyflog, yna byddent i bob pwrpas yn derbyn 75% o Raglen Partneriaeth Arloesi ar Waith a 25% o'r cyfraniad ariannu cyfatebol. Er mwyn derbyn y cyfraniad o 75%, rhaid i 100% o amser yr unigolyn yma gael ei dreulio a'i gofnodi yn erbyn y prosiect.

Rhaid i brosiectau sicrhau eu bod yn darparu trywydd archwilio llawn ar gyfer arian cyfatebol ac mae'n rhaid i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n darparu cyfraniad o'r fath hefyd ddarparu a chadw'r cofnodion angenrheidiol.

COSTAU CYMWYS

- Costau llafur ar gyfer pawb sy'n cyfrannu at y prosiect
- Costau materol yn cynnwys defnyddiau traul sy'n benodol berthnasol i'r prosiect
- Costau offer cyfalaf
- Costau is-gontractau sydd wedi eu cyfyngu i 20% o gostau cyfan y prosiect
- Costau teithio a chynhaliaeth, a allai gynnwys teithio drwy'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn rhyngwladol i gwrdd â phartneriaid ac i fynd i ddiwyddiadau i ddeall gwahanol gyfleoedd yn y farchnad
- Gweithgareddau diwydrwydd dyladwy ar farchnadoedd a phartneriaid posibl
- Costau anuniongyrchol (defnyddiau traul, gorgostau ac ati)

Mae'n rhaid i brosiectau ddilyn canllawiau caffael y sector cyhoeddus sy'n cynnwys cysylltu â thri chwmni o leiaf i ddarparu dyfynbrisiau mewn ysgrifen ar gyfer yr holl gontractau sydd werth mwy na £5000 (heb TAW).

COSTAU NAD YDYNT YN GYMWYS

- Unrhyw waith sy'n berthnasol i'r prosiect y cytunwyd arno cyn y dyddiad cychwyn gweithio awdurdodedig
- prynu stoc masnachu
- cyfalaf gweithio
- costau yswiriant
- taliadau am weithgareddau o natur grefyddol a/neu wleidyddol
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfryngau cymorth ariannol eraill yn cynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu gostau eraill
- dibisiad, amorteiddiad ac amhariad ar asedau a brynwyd gyda chymorth grant
- rhwymedigaethau amodol
- darpariaethau / trefniadau wrth gefn
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- rhandaliadau
- costau llog (heblaw eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
- costau sy'n codi o oedi talu taliadau i gredydwy
- costau sy'n ofynnol wrth ddirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i mewn i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau am bensiynau heb eu hariannu
- iawndal am golli swydd
- taliadau am roddion ac anrhegion
- adloniant
- cosbau a dirwyon statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW anadferadwy)
- iawndal a dirprwyon troseddol
- treuliau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

Nid yw grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn yn atebol i gymorth gwladwriaethol.

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

I gael ei ddewis, mae'n rhaid i brosiect ddangos, fel y bo'r angen, sut y mae'n cyflawni'r amcanion strategol a thematig ar gyfer y rhaglen.

Mae'n rhaid i brosiectau hefyd ddangos:

Bod angen gweithredu:

- mae'r deilliannau'n angenrheidiol ac maent yn mynd i ddarparu yn erbyn deilliannau'r Mesur
- mae'r prosiect yn ychwanegu at y gweithgareddau presennol, ac nid yw'n disodli/ailadrodd y gweithgareddau presennol yn ddianghenraid

Bod angen yr ariannu:

- ni all symud ymlaen yn awr heb gymorth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgareddau perthnasol
- mae bwlch yn yr ariannu, lle bo'n berthnasol.

Y gallu i ddarparu:

- hyfywedd y partneriaid a'r busnesau arweiniol
- cydymffuriad cyfreithiol
- hyfywedd ariannol y prosiect
- cefnogaeth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso prosiectau

Gofynion allweddol eraill

- Mae prosiectau'n cael eu harwain gan fusnesau ac yn cynnwys o leiaf un partner arall a allai gynnwys busnesau, sefydliadau ymchwil a sefydliadau'r sector cyhoeddus
- Mae'n rhaid i brosiectau ymdrin â heriau cymdeithasol a heriau'r sector cyhoeddus neu faterion cyffredin sy'n wynebu grwpiau bach o fusnesau o fewn y diwydiant bwyd a diod.
- Mae'n rhaid i brosiectau ddangos sut y bydd syniadau a chysyniadau'n arwain at farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol newydd drwy dyfu'r busnes.
- Mae'n rhaid i brosiectau ddangos bod ganddynt y potensial i gael effaith ac adennill ar y buddsoddiad.
- Mae'n rhaid i brosiectau wneud cyfraniad at y cynllun trosfwaol, y Cynllun Gweithredu Strategaeth Fwyd - Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020 a'r amcanion thematig ar gyfer y rhaglen.
- Rhaid i weithredydd ymhob sefydliad fynd i gyfarfodydd rhwydwaith a chlwstwr drwy gydol hyd y prosiect.

SUT I WNEUD CAIS

Bydd prosiectau'n cael eu dewis drwy broses cystadleuaeth agored a bydd ymgeiswyr mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd

Bydd y broses ymgeisio ar gyfer Rhaglen Partneriaeth Arloesi ar Waith yn digwydd mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd cyflwyno'r Ffurflen Gais (IP_WG_003).

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd isafswm trothwy ansawdd o 70% yn cael eu gwahodd i roi rhagor o wybodaeth i'r panel.

Mae'n rhaid gwneud ceisiadau'r cam cyntaf gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais (IP_WG_003). Dylid anfon y ffurflen gais ar yr ebost i FoodBIS@wales.gsi.gov.uk wedi ei marcio'n glir fel **CAIS RHAGLEN PARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH**.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **1200 canol dydd ar 28ain Medi 2018**. Rhaid i'r holl geisiadau gael eu cyflwyno yn unol â'r cyfarwyddiadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ffurflen Gais (IP_WG_004).

Bydd panel dethol o arbenigwyr yn adolygu'r ceisiadau. Bydd y ceisiadau'n cael eu sgorio ac yn cael eu rhoi yn eu trefn yn unol â'r meini prawf dethol o fewn y Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ffurflen Gais (IP_WG_004).

Yn rhan o'r cyfweiliadau ail gam bydd sefydliadau'n rhoi cyflwyniad am yr arloesi, gan ddangos sut y bydd yn gallu helpu gyda'r sialens neu'r broblem a ganfuwyd ac yn disgrifio cynllun y prosiect y byddent yn ei ddilyn. Bydd y cyfweiliadau'n gyfle i'r panel ofyn cwestiynau i'r consortiwm am y cynnig ac yn asesu eu gallu i gyflawni amcanion y rhaglen.

Bydd y sgorau o'r asesiad cychwynnol yn cael eu gwirio yn unol â'r atebion a roddwyd yn ystod y broses gyfweidd. Ar ddiwedd y cam yma, bydd grantiau'n cael eu dyfarnu i sefydliadau. Bydd adborth ar gael i'r ymgeiswyr wedi i'r grantiau gael eu dyfarnu.

Bydd y cais a'r cyfweiliad yn cael eu gwerthuso yn unol â chanllawiau'r rhaglen a'r rheolau cymhwysedd. Byddent yn atebol i werthusiad diwydrwydd dyladwy a gwiriadau cymhwysedd llawn, a dim ond ar y pwynt hwnnw y gwneir penderfyniad terfynol i gynnig grant neu wrthod y cais. Ni ellir gwarantu y bydd cynnig yn cael ei gymeradwyo ar gyfer derbyn grant.

Peidiwch â chychwyn unrhyw waith nes byddwch wedi derbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol yma'n cael eu hystyried ar gyfer grant.

Yn atebol i ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru'n cael ei thrin yn hollol gyfrinachol. Os byddwch yn llwyddiannus, dylech gofio bod gan Lywodraeth Cymru'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, faint o grant a gawsoch a chrynodeb o'ch prosiect.

Cewch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os byddwch yn dymuno hynny, ond chi, nid yr ymgynghorydd, sydd i lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw hi i Fersiwn: 3

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Gorffennaf 2018

sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir a bod yr wybodaeth a rowch i gefnogi'ch prosiect yn gywir.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu am hynny yn unol â'r dyddiadau allweddol a gyhoeddwyd a disgwylir i gonsortia fynd ati'n gyflym i gychwyn y prosiect. Mae'n bwysig bod Prosiectau'n cychwyn yn fuan wedi i'r grant gael ei ddyfarnu ac yn unol â chynllun y prosiect sydd wedi'i ddisgrifio yn y ffurflen gais a gyflwynwyd.

Ni fydd Menter a Busnes yn gwerthuso ceisiadau a chanddyn nhw y bydd y cyfrifoldeb cyfan am weinyddu a rheoli'r Rhaglen. Bydd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddarparu sylwadau'r polisi i sicrhau bod prosiectau'n cyflawni amcanion y polisi.

AMODAU'R GRANT

Cynigir grant drwy Raglen y Bartneriaeth Arloesi ar Waith yn amodol ar yr amodau a thelerau sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Grant, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u nodi isod. Os na lwyddir i gyflawni amodau a thelerau'r dyfarniad, gallai eich dyfarniad gael ei ganslo a/neu bydd rhaid talu'n ôl unrhyw symiau a dalwyd yn barod, neu bydd maint y grant sy'n daladwy'n cael ei ostwng.

Amodau:

- Rhaid derbyn y grant a ddyfarnwyd o fewn 14 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar y llythyr cymeradwyo.
- Rhaid i brosiectau gychwyn ar 29ain Hydref 2018 a chael eu cwblhau erbyn 1af Mawrth 2019 (Rhaid gwneud pob hawl am ad-daliad treuliau erbyn 15fed Mawrth 2019).
- Rhaid i brosiectau fod â chytundebau cydweithio ar waith cyn iddynt gychwyn.
- Gwneir y dyfarniad ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu eich cynrychiolwyr yn y ffurflen gais a'r ohebiaeth ddilynol.
- Mae'n drosedd rhoi unrhyw ddatganiadau ffug neu gamarweiniol.
- Ni chewch gychwyn unrhyw waith ar y prosiect heb gael caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru.
- Ni cheir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, yn cynnwys lleoliad y gweithgareddau, heb dderbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'n rhaid i'r hawliwr gydymffurfio â'r rheolau am wariant cymwys fel y maent wedi eu disgrifio yn y Canllawiau yma.
- Rhaid i hawliau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir a rhaid darparu'r holl ddogfennaeth angenrheidiol gyda'r hawliad. Os na wneir hynny, ni fyddent yn dderbyniol a byddent yn cael eu dychwelyd i'r hawliwr.
- Rhaid cyflwyno hawliadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid amseriad a gwerth yr hawliadau y cytunwyd arnynt heb gytundeb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf heb fod yn hwyrach na thri mis o'r dyddiad ar y llythyr cais.
- Os na wneir yr hawliad cynaf o fewn y cyfnod yma, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.
- Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad yw unrhyw rai o'r eitemau sy'n rhan o'r cais yn rhai a adnewyddwyd o dan hawliad yswiriant.

- Mae'n rhaid i chi ddarparu cadarnhad na wnaethpwyd cais am unrhyw ariannu cyhoeddus arall (p'un a ydyw o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig) ar gyfer y gweithgaredd a ariennir drwy'r grant yma.
- Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraeir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ariannu'r prosiect hwnnw.
- Mae'n rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â gweithrediad a darpariaeth y prosiect, yn cynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau perthnasol eraill megis tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect fel y mae wedi'i nodi yn llythyr cadarnhau'r grant.
- Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio ymchwilio'r prosiect. Os gofynnir i chi, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld dogfennaeth wreiddiol mewn perthynas â'r prosiect.
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth gefnogol yn atebol i ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- Dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, os ydych yn llwyddiannus, yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, faint o grant a gawsoch a chrynodeb o'ch prosiect.
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Ffurflen Gais (IP_WG_003) yn atebol i'r Hysbysiad Preifatrwydd. Mae'r [Hysbysiad Preifatrwydd](#) yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

TALU'R GRANT

- Gallwch wneud hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd canllawiau ar sut i hawlio'n cael eu cyhoeddi pan gadarnheir bod y grant am gael ei ddyfarnu ac, wedi hynny, gwahoddir yr hawliad. Ni thelir hawliadau nes bydd Llywodraeth Cymru a Menter a Busnes yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi digwydd a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun. Gwneir y taliad drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
- Dylech gyflwyno ceisiadau terfynol am dalu grantiau gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Rhaid derbyn yr holl hawliadau terfynol heb fod yn hwyrach na'r 15^{fed} Mawrth 2019 er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Os na lwyddir i gyflwyno hawliadau, gallai'r grant a dalwyd hyd hynny gael ei hawlio'n ôl.
- Yn ystod oes y grant, pan fydd hawliadau'n cael eu cyflwyno, gallent gael eu craffu i sicrhau bod y gwariant yn gymwys ac yn cyfateb â hwnnw a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Bydd y broses o ryddhau'r grant yn amodol ar wneud cynnydd digonol.
- Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau fod pob hawliad a gyflwynir yn fathemategol gywir; ei fod am wariant a dalwyd yn unig (mae'r arian wedi mynd o'ch cyfrif banc); a bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad wedi'i wneud o fewn yr amser gofynnol.
- Os yw'r hawliad yn anghywir yna bydd eich hawliad yn cael ei ostwng i'r maint sy'n gymwys a bydd y grant sydd i gael ei dalu'n cael ei gyfrifo'n unol â hynny. Ond, os yw'r gwall yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol arnoch, fel sydd wedi'i ddisgrifio isod.

- Bydd maint y gwariant cymwys wedi'i ostwng o faint y gwall ac felly bydd maint terfynol y grant sydd i gael ei dalu'n is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth am na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.
- Os oes gennych unrhyw amheuan a yw unrhyw wariant yn gymwys, rhaid i chi wirio hynny cyn creu'r costau yma.
- Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, efallai y daw rhywun i ymweld â'r safle a gwneud asesiad manwl o'r prosiect a gyflawnwyd. Gallai'r wybodaeth sy'n ofynnol yn ystod yr ymweliad gynnwys anfonebau gwreiddiol a rhifau cyfres yr offer.

MONITRO PROSIECTAU

Mae'n un o ofyniadau'r grant bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a'i lwyddiant yn cael ei werthuso wedi iddo gael ei gwblhau. Bydd gofyn i chi roi diweddariadau rheolaidd am ei gynnydd drwy gyflwyno adroddiadau ar y prif bwyntiau a mynd i gyfarfodydd adolygu camau. Ar ôl eu cwblhau, mae'n rhaid i brosiectau gyflwyno adroddiad terfynol am eu perfformiad, lle bydd y prosiectau'n cael eu gwerthuso yn erbyn yr amcanion a'r cerrig milltir a nodwyd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd prosiect wedi cyflawni'r cerrig milltir ac, ar sail y cynnydd gwirioneddol a wnaed, ni fyddai wedi bod yn gymwys i dderbyn cymorth grant o dan y cynllun, efallai y cymerir camau i hawlio'r grant a dalwyd yn ei ôl.

Trwy gydol y prosiect, bydd risg cyffredinol y prosiect yn cael ei fonitro gan ddefnyddio statws RAG. Bydd unrhyw brosiectau a ystyrir yn rhai categori Oren yn atebol i fonitro agosach gan Lywodraeth Cymru a Menter a Busnes. Bydd unrhyw brosiectau a roddir yn y categori Coch yn gorfod cynnal cyfarfod cynllun gweithredu gyda Llywodraeth Cymru a Menter a Busnes a gallai hynny gynnwys ymweliad â safle'r prosiect i leihau'r risg a ganfuwyd.

Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru a Menter a Busnes, neu eu cynrychiolwyr, ddod i archwilio'r prosiect unrhyw bryd sy'n rhesymol o fewn cyfnod y prosiect neu pan fydd wedi'i gwblhau.

DIWEDD RHAGLEN Y BARTNERIAETH ARLOESI AR WAITH

Rhaid cyflwyno'r holl hawliadau i Lywodraeth Cymru erbyn 15fed Mawrth 2019 fan bellaf. Rhaid cwblhau holl weithgaredd y prosiect mewn digon o bryd i archwilio cyfrifon a chofnodion ac i baratoi a chyflwyno hawliadau erbyn y dyddiad yma.

Lluniwyd y rhaglen hon i gychwyn ac i ysgogi arloesi mewn amgylchedd cydweithredol. Bydd y rhaglen yn rhedeg am un cyfnod, er y bydd cyfnodau pellach o bosib yn y dyfodol yn dibynnu ar amcanion y polisi. Nid yw derbyn cyllid ar gyfer y cyfnod hwn o'r rhaglen yn gwarantu unrhyw ariannu pellach ar gyfer ymchwil a datblygiad yn y dyfodol. Bwriad prosiectau dichonoldeb yw dangos pa mor ymarferol yw'r cysyniadau i gefnogi'r penderfyniad ynghylch buddsoddiad yn y dyfodol.

DOGFENNAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R RHAGLEN HON

- Briff y Rhaglen (IP_WG_001)
- Nodiadau Esboniadol (IP_WG_002)
- Ffurflen Gais (IP_WG_003)
- Nodiadau Esboniadol ar gyfer y Ffurflen Gais (IP_WG_004)

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Lansio'r rhaglen	Gorffennaf 2018
Digwyddiadau briffio	11 a 12 Medi 2018
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	28 Medi 2018
Diwrnod asesu	15 Hydref 2018
Dyfarnu contractau	Hydref 2018
Prosiectau'n cychwyn	29 Hydref 2018
Prosiectau'n dod i ben	1 Mawrth 2019

Nodwch y gallai'r dyddiadau newid

MANYLION CYSYLLTU

Rydym yn croesawu cwestiynau tra bydd y gystadleuaeth yn agored. Dylid cyfeirio cwestiynau am her a chwmpas y rhaglen hon i FoodBIS@wales.gsi.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau am y gystadleuaeth hon yw Dydd Gwener 28^{ain} Medi 2018.